Hysbysiad preifatrwydd

Aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr a'i Bwyllgorau

1. PWRPAS A CHYD-DESTUN

Gwnaeth Deddf Diogelu Data y Deyrnas Unedig 2018 ("DDD") weithredu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018. Pan a phryd y bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd bydd y Ddeddf Diogelu Data yn disodli'r GDPR. Mae'r Ddeddf a'r GDPR yn llywodraethu'r ffordd mae sefydliadau'n defnyddio data personol. Data personol yw gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod.

Tryloywder yw un o elfennau allweddol GDPR a dyluniwyd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn i'ch hysbysu chi:

- sut a pham mae'r Brifysgol yn defnyddio eich data personol,
- beth yw eich hawliau chi dan GDPR, a,
- sut i gysylltu gyda ni fel y medrwch chi weithredu'r hawliau hynny.

2. HUNANIAETH A MANYLION CYSWLLT Y RHEOLYDD DATA

Mae Prifysgol Glyndŵr wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel Rheolydd Data ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a GDPR. Gellir gweld copi o'r cofrestriad yma.

Mae gan Brifysgol Glyndŵr Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef trwy'r cyfeiriad e-bost dpo@glyndwr.ac.uk.

3. PA WYBODAETH AMDANOCH CHI YDYM NI'N EI CHASGLU?

* *Yn dynodi gwybodaeth a allai gynnwys data sy'n cael ei ddosbarthu fel data personol sentisif/categorïau arbennig data personol dan GDPR ac sy'n ddarostyngedig i lefel uwch o reolaeth a diogelu.*

G Yn dynodi gwybodaeth rydych chi'n ei darparu ar sail gwirfoddol neu lle rydych chi'n cael y dewis 'well gen i beidio â dweud' neu 'gwrthodwyd rhoi'r wybodaeth.'

 # Yn dynodi gwybodaeth a gyhoeddir/a fydd ar gael i'r cyhoedd.

3.1 Wrth ddod yn aelod o'r Bwrdd Llywodraethwyr, bydd y Brifysgol yn casglu'r mathau isod o ddata personol amdanoch chi:

- eich enw# a'ch manylion cyswllt (megis cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn);
- y wybodaeth sy'n ofynnol gan y Comisiwn Elusennau i'ch cofrestru chi fel ymddiriedolwr (elusen gofrestredig rhif 1142048). Mae hyn yn cynnwys eich dyddiad geni, unrhyw enwau ychwanegol y cawsoch eich hadnabod wrthynt, eich cenedligrwydd a'ch cyfeiriad cartref);
- os ydych chi'n Gyfarwyddwr un o is-gwmnïau'r Brifysgol, y wybodaeth sy'n ofynnol gan Dŷ'r Cwmnïau i'ch cofrestru chi fel Cyfarwyddwr. Mae hyn yn cynnwys manylion eich dyddiad geni, unrhyw enwau ychwanegol y cawsoch eich hadnabod wrthynt,

cenedligrwydd, teitl swydd, cyfeiriad gwasanaethu (a all fod yn gyfeiriad cofrestredig y cwmni) a'ch cyfeiriad cartref;
- eich CV (yn cynnwys eich cefndir addysgol, cymwysterau, hanes cyflogaeth, penodiadau cyhoeddus/gwirfoddol, datganiad ychwanegol i gefnogi eich cais);
- manylion bywgraffiadol# a llun#.
- data cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i fonitro amrywiaeth y Bwrdd. Noder, cyhoeddir data o'r fath mewn ffurf dienw megis yn yr adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Blynyddol.

Yn gyfnodol byddwn yn gofyn i chi lenwi:

- ffurflen 'Datgan Buddiannau' yn gofyn am wybodaeth am eich buddiannau eraill sy'n berthnasol i'r Brifysgol (yn flynyddol). Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chrynoi mewn cofrestr fuddiannau#.
- holiadur yn amlinellu eich sgiliau a'ch profiad wedi'i fapio yn erbyn lled yr arbenigedd sy'n ofynnol gan y Bwrdd gan ei aelodaeth;
- ffurflen monitro cydraddoldeb, yn gofyn am fanylion yn gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig a gwmpasir gan ddylestwydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (yn flynyddol). Mae hyn yn cynnwys eich:
    - oedran
    - dyddiad geni
    - rhywedd
    - ailbennu rhywedd* G
    - ethnigrwydd*G
    - anabledd*G
    - cred crefyddol*G
    - statws o fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
    - statws o fod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
    - cyfeiriadedd rhywiol*G
    - eich cymhwyster uchaf.

3.2 Os ydych chi'n staff lywodraethwr, yn ychwanegol at y wybodaeth yn 3.1, byddwn yn casglu hefyd trwy'r broses etholiad:

- eich Cyfadran/Adran Gwasanaeth Proffesiynol;
- datganiad i'r etholwyr a ddosberthir i'r holl staff;
- manylion pleidleisio a'r canlyniadau.

3.3 Os ydych chi'n aelod o Bwyllgor y Bwrdd Llywodraethwyr (ond ddim yn aelod o'r Bwrdd), byddwn yn casglu'r mathau isod o ddata personol amdanoch chi:

- eich enw# a'ch manylion cyswllt (megis cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn);
- Eich CV (yn cynnwys eich cefndir addysgol, cymwysterau, hanes cyflogaeth, penodiadau cyhoeddus/gwirfoddol, datganiad ychwanegol i gefnogi eich cais);
- manylion bywgraffiadol# a llun#

ac yn gofyn yn gyfnodol i chi lenwi:

- ffurflen 'Datgan Buddiannau' sy'n gofyn am wybodaeth am eich buddiannau eraill sy'n berthnasol i'r Brifysgol (yn flynyddol). Caiff y wybodaeth hon ei chrynhoi mewn cofrestr fuddiannau'#.

3.4 Yn ychwanegol at yr uchod, cesglir y data ychwanegol a ganlyn yn ystod eich cyfnod yn y swydd:

- Manylion eich cyfrif banc
- Rhif cofrestru eich car
- Enw eich partner/priod
- Gofynion dietegol
- Manylion cyswllt ychwanegol

- Gohebiaeth
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd
- Gofynion addasiadau rhesymol*

4. PAM RYDYM NI'N PROSESU EICH DATA PERSONOL?

Mae'n angenrheidiol i'r Brifysgol brosesu eich data personol er mwyn cydymffurfio gydag ymrwymiadau cyfreithiol a rheoleiddiol.

4.1 O ran holl aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr:

- cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Bydd rhai manylion penodol ar gael i'r cyhoedd i'r rhai sy'n chwilio am wybodaeth am Ymddiriedolwr, ac i sicrhau nad yw llywodarethwyr wedi'u gwahardd fel ymddiriedolwr elusen yn unol â Deddf Elusennau 2006;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chyrff ac adrannau eraill y llywodraeth sy'n gyfrifol am gyllid cyhoeddus, dadansoddi ystadegol, monitro ac archwilio, contractau a cheisiadau cyllido;
- cyflwyno data i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn flynyddol i ganiatáu monitro nodweddion cydraddoldeb;
- cydymffurfio gyda banciau'r Brifysgol fel rhan o'u gofynion 'Adnabod eich Cwsmer';
- staff perthnasol y Brifysgol i'ch galluogi chi i gael gweld ardaloedd gwefan y Brifysgol wedi'u diogelu gyda chyfrinair, a defnyddio cyfeiriad e-bost y brifysgol os ydych chi'n dymuno;
- cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau yn achos llywodraethwyr sydd hefyd yn gyfarwyddwyr is-gwmnïau'r Brifysgol;
- manylion cyswllt a ddosberthir ymhlith aelodau'r Bwrdd a Phwyllgor Gweithredol y Brifysgol yn unig.

4.2 O ran holl aelodau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau:

- recriwtio a dethol aelodau newydd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
- dosbarthu dogfennau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau;
- cynnwys yng nghofnodion y Bwrdd a'i bwyllgorau;
- cyswllt rheolaidd trwy e-bost yn ymwneud â busnes y brifysgol;
- gwahoddiadau i ddigwyddiadau'r brifysgol;
- monitro a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010;
- darparu manylion eich aelodaeth o'r Bwrdd neu'i bwyllgorau trwy wefan y Brifysgol, yn cynnwys cynllun cyhoeddi'r Brifysgol sy'n ofyniad Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
- ar gyfer unrhyw ofynion adrodd, yn cynnwys yn y gofrestr fuddiannau, yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol a chyhoeddiadau'r brifysgol;
- yswirwyr y brifysgol;
- archwilwyr mewnol ac allanol y brifysgol;
- cyfreithiwr a chynrychiolwyr cyfreithiol y brifysgol;
- gwestai a lleoliadau allanol at ddiben bwcio llety a digwyddiadau, gofynion dietegol a hygyrchedd.

5. BETH YW'R SAIL GYFREITHIOL AR GYFER PROSESU EICH DATA PERSONOL?

Mae'r Brifysgol angen prosesu eich data personol er mwyn cydymffurfio gyda'i ymrwymiadau cyfreithiol a rheoleiddiol.

Yn yr achos hyn gallem ddefnyddio eich data personol:

- i gyflawni gwaith y Bwrdd (sy'n gorff statudol) a'i bwyllgorau;
- ar gyfer recriwtio a dethol aelodau newydd gan Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Bwrdd;
- er mwyn monitro a gwerthuso perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Brifysgol;
- i gynnal Cofrestr Fuddiannau yn cynnwys datganiad gan bob aelod o'r Bwrdd a'i bwyllgorau;
- i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Bwrdd a ledled y Brifysgol;

- i'w gynnwys yng Nghynllun Cyhoeddi'r Brifysgol sy'n ofyniad y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- i sicrhau nad yw llywodraethwyr wedi'u gwahardd fel ymddiriedolwr elusen yn unol â Deddf Elusennau 2006;
- i fodloni gofynion deddfwriaeth cwmnïau os ydych chi hefyd yn gyfarwyddwr un o is-gwmnïau'r Brifysgol.

Mae'n angenrheidiol i'r Brifysgol brosesu eich data personol er mwyn diogelu eich buddiannau pwysig neu rai unigolyn arall.

- Er mwyn diogelu buddiannau pwysig llywodraethwyr ac eraill h.y. mewn argyfwng / sefyllfaoedd byw neu farw / lle rydym ni'n credu bod llywodraethwr neu unigolyn arall yn wynebu perygl o niwed sylweddol.

Mae yna ddibenion busnes cyfreithlon y mae'r Brifysgol yn prosesu eich data i'w bodloni.

- i gyflwyno ceisiadau am arian i gyrff ariannu yn y Deyrnas Unedig;
- cyflawni gofynion trefniadau bancio'r Brifysgol;
- er mwyn gweinyddu hawliadau treuliau.

Bydd y Brifysgol yn gofyn am eich caniatâd ar gyfer y dibenion a ganlyn:

- bwcio hyfforddiant gyda sefydliadau allanol;
- rhannu manylion cyswllt gydag aelodau eraill y Bwrdd;
- dosbarthu datganiad a chynhyrchu dogfennaeth etholiad (ar gyfer aelodau staff sy'n ceisio cael eu hethol yn aelod o'r Bwrdd);
- cadarnhau gofynion llety, dietegol a hygyrchedd ar gyfer digwyddiadau;
- eich ychwanegu chi at restrau postio perthnasol ar gyfer cyhoeddiadau'r Brifysgol.

Lle rydym ni'n prosesu **data personol sensitif/categorïau arbennig data personol**, byddwn yn dibynnu ar yr amodau yn Erthygl 9 y GDPR: caniatâd penodol, buddiannau pwysig, budd sylweddol y cyhoedd, meddygaeth alwedigaethol ac archifo/ymchwil.

6. GYDA PHWY RYDYM NI'N RHANNU EICH DATA PERSONOL CHI?

Dylech fod yn ymwybodol, er mwyn i ni ddarparu ein gwasanaethau, mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu eich data personol neu ddata personol sensitif yn y sefydliad neu'r tu allan i Brifysgol Glyndŵr. Mae preifatrwydd eich data personol yn holl bwysig ac ni fydd yn cael ei ddatgelu oni bai y gellir cyfiawnhau'r diben am wneud hyn. **Nid yw'r Brifysgol FYTH yn gwerthu data personol i drydydd partïon.**

Eraill y gallem ni rannu eich data gyda nhw:

- **Staff y Brifysgol**. Lle bo angen y wybodaeth at ddibenion gweinyddol. Yn achos ymgeiswyr am swyddi staff lywodraethwyr, bydd y datganiad i'r etholwyr yn cael ei rannu gyda holl staff y Brifysgol.

- **Contractwyr a chyflenwyr.** Lle bo'r Brifysgol yn defnyddio gwasanaethau allanol neu wedi allanoli gwaith sy'n cynnwys defnyddio data personol llywodraethwyr ar ein rhan ni. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod contractau, telerau ac amodau a/neu gytundebau rhannu data yn bodoli a bod y contractwyr a'r cyflenwyr yn prosesu data personol yn unol â GDPR a deddfwriaeth arall berthnasol.

- **Cyrff ac adrannau llywodraeth yn y Deyrnas Unedig ac Ardaloedd Economaidd Ewropeaidd.** At ddibenion cyllid cyhoeddus, ceisiadau cyllido, dadansoddi ystadegol, monitro ac archwilio, noddi a materion rheoleiddio.

- **Gwestai a lleoliadau allanol**. At ddibenion bwcio digwyddiadau, llety, gofynion dietegol neu ofynion hygyrchedd.

- **Banciau'r Brifysgol.**

- **Y Comisiwn Elusennau**.

- **Tŷ'r Cwmnïau.** Yn achos llywodraethwyr sydd hefyd yn gyfarwyddwyr un o is-gwmnïau'r Brifysgol.

- **Cwmni yswiriant, cynghorwyr cyfreithiol ac archwilwyr y Brifysgol.**

- Y rhai sy'n gofyn am wybodaeth ynghylch **datgan buddiannau** gael aelodau'r Bwrdd, y mae'n rhaid ei gwneud ar gael ar gais i'r perwyl hynny.

Cedwir data gan aelodau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau gan Glerc y Bwrdd Llywodraethwyr, a rhoir mynediad ato i'r aelodau staff hynny y mae angen iddynt gysylltu gyda chi er mwyn galluogi cyflawni gwaith y Bwrdd a'i Bwyllgorau neu i'ch gwahodd chi i ddigwyddiadau'r Brifysgol. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y wybodaeth a gedwir amdanoch chi, cysylltwch gyda Chlerc y Bwrdd, v.butterworth@glyndwr.ac.uk.

7. TROSGLWYDDIADAU I SEFDYLIADAU RHYNGWLADOL/TRYDYDD GWLAD

Os oes angen i ni drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i sefydliad arall i'w phrosesu mewn gwledydd nad ydynt yn cael eu rhestru fel 'digonol' gan y Comisiwn Ewropeaidd, rydym ni'n gwneud hynny yn unig dan yr amgylchiadau isod:

- bod y trosglwyddiad yn ddarostyngedig i 'ddiogelu priodol' o ran trosglwyddiadau rhyngwladol;
- lle ein bod wedi cael eich caniatâd penodol chi; neu
- lle bo ymrwymiad cytundebol.

8. SUT MAE EICH DATA CHI'N CAEL EI GADW'N DDIOGEL?

Cedwir gwybodaeth bersonol ar systemau electronig diogel lle mae'r mynediad trwy gyfrwng cyfrinair yn cael ei reoli'n gaeth, fel bod rheolwyr a staff yn medru gweld gwybodaeth sy'n briodol ac angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu swydd yn unig. Lle bo data sensitif wedi'i gadw ar ffurf copi caled mae'r papurau mewn cypyrddau ffeilio sy'n cloi, mewn ystafelloedd wedi'u cloi, lle caniateir mynediad cyfyngedig.

Mae'r Brifysgol yn dilyn dull cadarn i ddiogelu'r wybodaeth a gedwir ganddi. Mae hyn yn cynnwys 'co bach' wedi'u hamgryptio wrth ddefnyddio cyfrifiaduron/gliniaduron y Brifysgol a defnydd mesurau technegol yn cynnwys waliau tân, system synhwyro tresmasu a theclynnau atal ar rwydwaith y Brifysgol.

Ochr yn ochr â'r mesurau technegol hyn mae polisïau a phrosesau cynhwysfawr ac effeithiol yn bodoli i sicrhau bod defnyddwyr a gweinyddwyr gwybodaeth y Brifysgol yn ymwybodol o'u hymrwymiadau a'u cyfrifoldebau am y data y medrant ei gyrchu. Darperir hyfforddiant i staff newydd sy'n ymuno â'r Brifysgol ac mae gan staff presennol hyfforddiant a chyngor arbenigol ar gael os oes angen.

9. AM BA MOR HIR Y CEDWIR EICH DATA CHI?

Y cyfnod cadw cofnodion sy'n ymwneud ag aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr a'i Bwyllgorau, yn cynnwys ymgeisio a phenodi/canlyniadau etholiad a manylion datgan buddiannau yw 7 mlynedd ar ôl eich cyfnod yn y swydd, gyda rhai eithriadau:

- Mae data monitro cydraddoldeb yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol ac mae ffurflenni wedi'u llenwi yn cael eu difa unwaith y derbynnir y ffurflen wedi'i diweddaru. Cedwir ystadegau dienw yn barhaol yn ein harchifau.

- Bydd gwybodaeth yn ymwneud â bwcio digwyddiadau yn cael ei chadw am gyfnod pob aelod yn y swydd.

- Cedwir cofnodion hawliadau treuliau a thaliadau a manylion bancio gan yr Adran Cyllid am 7 mlynedd at ddibenion treth ac archwilio ac yna maen nhw'n cael eu cadw yn yr archif am gyfnod amhenodol.

- Lle bo llywodraethwyr hefyd yn gyfarwyddwr is-gwmni, cedwir cofnodion cysylltiedig am 10 mlynedd ar ôl diddymu/gwaredu'r cwmni.

- Cedwir y cofnodion a ganlyn yn ein harchifau'n barhaol:

    - cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau
    - adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol
    - ffotograffau

- Cedwir datganiadau a gyflwynir i Glerc y Bwrdd gan ymgeiswyr llwyddiannus am swyddi staff lywodraethwyr trwy gydol eu cyfnod yn y swydd. Yn achos ymgeiswyr aflwyddiannus, y cyfnod cadw yw 6 mis ar ôl cwblhau'r etholiad.

10. BETH YW EICH HAWLIAU CHI?

Mae gennych chi'r hawliau isod dan ddeddfwriaeth Diogelu Data:

- cael eich **hysbysu** am ddefnydd eich data;
- gofyn am gael **gweld**, a chael copïau o'r data personol amdanoch chi a gedwir gennym ni;
- gofyn i ni **roi'r gorau** i brosesu eich data personol;
- gwneud cais i ni beidio ag anfon unrhyw gyfathrebiadau marchnata atoch chi;
- gofyn i ni **gywiro'r** data personol amdanoch chi a gedwir gennym ni os yw'n anghywir;
- gofyn i ni **ddileu** eich data personol;
- gofyn i ni **gyfyngu** ein gweithgareddu prosesu data (a, lle bo'r prosesu gennym ni wedi'i seilio ar ganiatâd gennych chi, fe gewch chi dynnu'r caniatâd yn ôl, heb effeithio ar gyfreithlondeb ein prosesu ar sail caniatâd cyn i chi dynnu'r caniatâd yn ôl);
- derbyn y data personol rydych chi wedi'i ddarparu i ni, mewn fformat rhesymol a nodwyd gennych chi, i chi ei storio neu ei ailddefnyddio at eich dibenion eich hun neu ei drosglwyddo i reolydd data arall (**cludadwyedd data**);
- **gwrthwynebu**, ar sail sy'n berthnasol i'ch sefyllfa benodol chi, i unrhyw un o'n gweithgareddau prosesu penodol lle rydych chi o'r farn bod hyn yn cael effaith anghyfrannol ar eich hawliau a'ch rhyddid;
- peidio â bod yn ddarostyngedig i **wneud penderfyniadau awtomatig a phroffilio** oni bai bod gennym ni sail gyfreithol i gyflawni hyn, ein bod ni'n eich hysbysu chi am y proffilio a gwneud penderfyniadau awtomatig rydym ni'n ei gyflawni, a sut y medrwch chi wrthwynebu. Nid ydym ni'n defnyddio gwneud penderfyniadau awtomatig a phroffilio yng nghyswllt aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr.

Noder nad yw'r hawliau uchod yn absoliwt ac mae'n bosibl y bydd gennym ni'r hawl i wrthod ceisiadau lle bo eithriadau'n berthnasol.

Dylid cyflwyno unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig at **Swyddog Diogelu Data'r** Brifysgol:

Plas Coch

Prifysgol Glyndŵr
Ffordd yr Wyddgrug
Wrecsam
LL11 2AW

E-bost: dpo@glyndwr.ac.uk

11. SUT I GYFLWYNO CWYN

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, pryderon neu os ydych chi'n dymuno cyflwyno cwyn ynghylch y ffordd y proseswyd eich data personol, dylech gysylltu gyda'r Swyddog Diogelu Data yn gyntaf, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych chi'n parhau'n anfodlon, yna mae gennych chi'r hawl i gyfeirio'r mater at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellid cysylltu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Tŷ Wycliffe,
Lôn Dŵr,
Wilmslow,
Sir Gaer,
SK9 5AF
Rhif ffôn 123 1113

www.ico.org.uk

Fersiwn 1 Chwefror 2019